Skanda Vale Hospice
Saron
Llandysul
SA44 5DY

Hosbis Skanda Vale

Canllaw i Gleifion

Croeso

Gall dderbyn diagnosis ac yna byw gyda chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd droi eich bywyd chi a'r bobl sydd o'ch cwmpas wyneb i waered. Efallai y byddwch yn teimlo'n ddryslyd, yn ofnus, neu hyd yn oed yn teimlo dicter, heb wybod ble i droi neu beth i'w wneud. Mae Hosbis Skanda Vale yma i'ch helpu chi a'r rhai sy'n pryderu amdanoch chi.

Rydym yn darparu cariad, gofal a chefnogaeth dros y ffôn, cefnogaeth rithiol a gwasanaeth gwrando proffesiynol; drwy wasanaeth gofal dydd yn yr hosbis am un diwrnod yr wythnos a thrwy wasanaeth seibiant claf mewnol (bob mis am bedair noson) er mwyn cwrdd ag agnghenion oedolion fel chi sy`n byw gyda chyflwr sy`n cyfyngu ar fywyd ac sydd ag anghenion gofal lliniarol.

Rydym yn ymwybodol bod gofynion pob unigolyn yn wahanol ac felly rydym wedi paratoi'r canllaw hwn i ateb rhai o'ch cwestiynau ynghylch y gwasanaethau gallwn eu cynnig i chi a hefyd i'r rhai sy'n eich caru. Rydym yn hapus i drafod unrhyw gwestiynau sydd gennych chi drwy e-bost, ffôn neu wyneb-yn-wyneb.

Beth yw Hosbis Skanda Vale?

Prosiect o wasanaethau yw Hosbis Skanda Vale a sefydlwyd gan Skanda Vale, canolfan cymunedol aml-ffydd yn Llanpumsaint. Cafodd Cymuned Skanda Vale ei sefydlu yn Nghymru yn 1973.

Tyfodd y Gymuned gan ennill enw da yn lleol fel darparwr cariad, gofal a chefnogaeth drwy ei Wasanaeth Gofal Cartref oedd yn rhedeg am 10 mlynedd o 1993 i 2003 yng ngogledd Sir Gâr a de Ceredigion. Roedd y gwasanaeth yn darparu cefnogaeth hanfodol i gynorthwyo pobl i farw yn eu cartrefi eu hunain a datblygodd hyn yn sydyn i sefydlu'r gwasanaeth Hosbis Dydd yn 2004 oedd yn cynnig gofal personol, cyfeillgarwch, gwybodaeth, therapyddion, a bwyd cartref maethlon.

Y freuddwyd, fodd bynnag, oedd cael adeilad er mwyn ehangu'r gwasanaethau hyn ac i gynnig gofal mewnol i gleifion fyddai'n cael ei arwain, ei reoli, a'i gyflwyno gan dîm o wirfoddolwyr ymroddedig a phrofiadol wedi eu hyfforddi, yn gweithio ochr yn ochr â thîm o staff nyrsio gofal lliniarol profiadol iawn fyddai`n cael eu cyflogi. Cafodd y freuddwyd hon ei gwireddu yn 2016 gyda sefydlu'r hosbis hardd 6 gwely yn Saron ger Llandysul. Yn anffodus bu rhaid i'r ganolfan dydd a'r ddarpariaeth i gleifion mewnol gau dros dro ym Mawrth 2020 oherwydd pandemig y Coronavirus. Ail-agorwyd ein gwasanaethau gofal dydd yn yr hosbis yn Ionawr 2022. Rydym yn ail-lansio ein gwasanaeth seibiant yn ogystal ac yn edrych i ail-agor ym mis Chwefror 2023.

Skanda Vale Hospice
Saron
Llandysul
SA44 5DY

Mae'n bwysig cofio nad oes rhaid i chi berthyn i unrhyw ffydd benodol i fanteisio ar ystod ein gwasanaethau. Rydym yn croesawu pawb dros 18 oed, waeth beth eu hil, cred bersonol, cefndir, gallu neu eu ffordd o fyw.

Mae'r hosbis wedi ei gofrestru fel ysbyty annibynnol gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac mae'n dilyn canllawiau a pholisi llym. Cawn ein harolygu yn rheolaidd gan yr AGIC er mwyn cadarnhau ein bod yn parhau i lynu at ganllawiau a pholisiau`r llywodraeth er mwyn sicrhau bod y gofal rydych yn ei dderbyn o`r safon uchaf.

Gallwch ddarllen ein hadroddiad arolygu diweddaraf ar wefan yr AGIC gan ddilyn y linc https://www.hiw.org.uk/skanda-vale-hosbis

Beth fydd y gost?

Mae `r holl wasanaethau sy`n cael eu cynnig **yn rhad ac am ddim** i chi a'ch teulu.

Rydym yn gwbl ddibynnol ar haelioni ein cefnogwyr, ymdrechion codi arian a nifer o gyrff dosbarthu grantiau sydd wedi cefnogi ein gweledigaeth. Ar hyn o bryd, nid ydym yn derbyn unrhyw gymorth ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru nac oddi wrth y Bwrdd Iechyd lleol.

Sut gallwn ni eich helpu chi?

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth a chyrff proffesiynol eraill megis eich meddyg teulu, nyrs ardal, ymgynghorydd ysbyty, nyrs gofal lliniarol a gweithwr/wyr cymdeithasol i sicrhau bod y gofal a'r gefnogaeth darperir gan Hosbis Skanda Vale yn rhan o'ch gofal cyfan. Rydym yn gweithio gyda chi i ateb y gofynion rydych chi yn eu hadnabod ac i'ch cynorthwyo i wireddu'r hyn rydych chi am ei wireddu.

Ein hathroniaeth yw darparu gofal sy'n gosod yr unigolyn wrth galon y gofal

Rydym yn cyflawni hyn drwy ymdrin â phob unigolyn fel person unigryw, gan ystyried lles cyflawn pob unigolyn gan anelu at wella ansawdd bywyd a chynnig heriau newydd a chyffrous.

Mae'r gofal a'r driniaeth rydym yn eu cynnig wedi eu cynllunio i'ch cynorthwyo i gynnal ansawdd bywyd gorau bosibl.

Mae ystod ein gwasanaethau yn cynnwys:

- Rheoli bywyd bob dydd
- Cefnogaeth seicolegol ac emosiynol i chi a'r rhai agos atoch chi
- Gofal seibiant i gleifion mewnol
- Cymorth, cyngor a chyfarwyddyd ar sut i gael mynediad i ffyrdd eraill o gefnogaeth
- Ystod o therapïau cyflenwol
- Myfyrio, ymlacio ac ymyriadau cefnogol eraill
- Gofal ac arweiniad ysbrydol – yn ôl y galw
- Cefnogaeth gymdeithasol a`r gallu i gwrdd ag eraill mewn sefyllfa debyg nail ai ar-lein, dros y ffôn neu wyneb-yn-wyneb
- Cymorth gydag ymolchi ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn medru gwneud hynny adref
- Cymorth i wneud dewisiadau ynghylch eich gofal yn y dyfodol a chofnodi y dymuniadau hyn

Skanda Vale Hospice
Saron
Llandysul
SA44 5DY

Darperir gofal dydd, ar hyn o bryd, bob dydd Mercher (ac eithrio gwyliau cyhoeddus) drwy gydol y flwyddyn.

Darperir gofal seibiant am 5 diwrnod yn olynol (4 noson) bob mis. Rydym yn ceisio rhoi gymaint o rybudd ag sy`n bosib o`r lleoedd seibiant sydd ar gael er mwyn i chi gynllunio pryd ydych yn medru aros.

Yr hyn na allwn ei gynnig

Sylwer nad oes gennym yr adnoddau i gynnig cefnogaeth bywyd uwch. Pe digwydd achos o gwymp sydyn, bydd mesurau cefnogaeth bywyd sylfaenol yn cael eu cychwyn (ag eithrio ble mae gan glaf gynllun gofal uwch i`r gwrthwyneb) a bydd ambiwlans yn cael ei alw.

Yn ogystal â hyn, ni fyddwn yn darparu therapïau mewnwythiennol, yn cynnwys gwrthfiotig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr hyn nad oes modd i ni ei gynnig, mae croeso i chi siarad gyda Phennaeth y Gwasanaeth Gofal.

Sut mae cael fy atgyfeirio?

Gallwch atgyfeirio eich hunan i Hosbis Skanda Vale, gall ffrind neu aelod o`r teulu wneud cais ar eich rhan neu gallwch ofyn i unrhyw un o'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda chi i atgyfeirio ar eich rhan. Mae'n hawdd iawn: nid oes unrhyw ffurflenni cymhleth, gallwch ffonio, ysgrifennu, e-bostio neu wneud apwyntiad i siarad ag aelod o'n tîm.

Byddwn yn trefnu asesiad atgyfeirio byr i benderfynu a fydd eich cyflwr yn gyson â meini prawf yr atgyfeiriad.

Y cam nesaf, wedi i chi gael eich derbyn, fydd cynnal asesiad person canolog er mwyn penderfynu sut fedrwn ni ateb eich gofynion penodol. Bydd yr asesiad yn digwydd naill ai dros y ffôn neu drwy alwad fideo. Os oes well gennych, ac os ydych yn ddigon da i deithio, gallwn drefnu asesiad wyneb yn wyneb yn yr hosbis.

Mae'n bwysig ein bod yn cysylltu gyda'ch meddyg teulu/ymgynghorydd er mwyn iddyn nhw wybod eich bod wedi eich atgyfeirio i Hosbis Skanda Vale a byddwn yn gofyn eich caniatâd i rannu gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill er mwyn sicrhau eich bod yn cael y gofal gorau posibl.

Y cyfleusterau

Mae Hosbis Skanda Vale wedi ei chynllunio er mwyn i chi deimlo'n gartrefol ac i chi deimlo bod croeso yma i chi. Cynllunnir yr adeilad dros ddwy lawr gyda mynediad drwy lift neu staerau. Mae'r hosbis yn cynnwys y canlynol:

- 6 ystafell wely sengl gydag ystafell ensuite ar gyfer cleifion mewnol
- Ystafell fwyta ar gyfer cleifion, ymwelwyr, a thîm yr hosbis
- Cegin broffesiynol ar y llawr gwaelod
- Ystafell haul olau ac eang sy'n cynnig golygfeydd a mynediad i ardal patio a'r gerddi
- Man cysegredig ar gyfer myfyrdod
- 2 ystafell therapi
- Ystafell weithgaredd
- Ystafell glinigol

Skanda Vale Hospice
Saron
Llandysul
SA44 5DY

- 1 ystafell ymolchi wedi ei haddasu ar y llawr gwaelod ar gyfer ymolchi gyda chymorth, yn cynnwys peiriant codi
- Gerddi addas i gadeiriau olwyn gyda nodwedd dŵr ac ardaloedd eistedd preifat a chysgodol
- Cegin fechan ar y llawr cyntaf at ddefnydd cleifion ac aelodau eu teuluoedd
- Adeilad i`r teulu gyda gwely dwbwl ym maes gerddi`r hosbis
- Llefydd parcio ceir

Mae'r hosbis yn le diogel ac mae system galw nyrs ar gael sy'n cynnwys ymateb drwy lais er mwyn i chi wybod bod eich galwad wedi ei dderbyn.

Mae gennym offer symud a thrafod, ymolchi a lliniaru pwysau yn yr hosbis. Mae gennym hefyd ystod o ddewisiadau eistedd yn yr ystafell ddydd a'r ystafell fwyta i'ch caniatáu chi i gael cadair sy'n addas i chi.

Mae'r hosbis wedi ei chynllunio a'i dodrefnu ar eich cyfer chi ac felly rydym yn croesawu bob syniad ac awgrym gennych chi er mwyn i chi deimlo'n gartrefol.

Beth mae'r tîm yn ei gynnig

Bydd eich gofal yn nwylo tîm o ymarferwyr medrus iawn. Mae`r tîm yn cynnwys nyrsys cofrestredig, gweithwyr cynhaliol a therapyddion, rhai ohonyn nhw'n aelodau staff cyflogedig ac eraill yn wirfoddolwyr. Mae gan nifer o aelodau'r tîm wybodaeth a phrofiad helaeth o weithio mewn gofal lliniarol. Bydd modd gwahaniaethu rhwng aelodau'r tîm a'u swyddogaethau yn yr hosbis. Mae pob nyrs a gofalydd yn hawdd i'w hadnabod gan fod ganddynt wisgoedd yn ogystal â bathodynnau gydag enw arnynt.

Rydym yn credu bod gan bawb rywbeth i'w gynnig at ofal a chariad eu cymuned eu hunain ac felly rydym yn annog gwirfoddoli yn frwd. Bydd nyrs cymwysedig ar gael yn ystod oriau gwasanaethau'r canolfan dydd ac yn ystod gofal seibiant os ydych chi am siarad gyda pherson meddygol proffesiynol.

Mae pob aelod o'r tîm yn derbyn addysg barhaol a datblygiad proffesiynol cyfredol er mwyn sicrhau bod y gofal rydych chi'n ei dderbyn y gorau gall fod. Maen nhw i gyd yn rhannu gweledigaeth Hosbis Skanda Vale o werthfawrogi bod pob un sy'n derbyn gofal yn unigryw. Rydych chi'n bwysig i ni oherwydd eich bod yn unigryw ac mae'r tîm cyfan wedi ymrwymo i gynnig gwasanaeth fydd am i chi a'ch teulu deimlo ein bod yn eich gwerthfawrogi a'ch caru.

Bydd eich meddyg teulu a'ch tîm arbenigol yn parhau i ddarparu cefnogaeth feddygol i chi. Byddwn yn dilyn unrhyw gynlluniau gofal sydd eisoes ar waith ganddyn nhw. Os ydych yn aros yn yr hosbis ac yn anhwylus yn ystod y dydd, byddwn yn gofyn am gyngor gan eich meddyg teulu neu dîm arbenigol.

Os yw eich cyflwr yn dirywio, byddwn yn eich symud i ysbyty os oes raid neu weithredu yn unol â'r dymuniadau rydych eisoes wedi eu nodi.

Eich arhosiad fel claf mewnol

Cyn i chi ddod i aros yn yr hosbis, byddwn yn gwneud asesiad er mwyn sicrhau bod eich mynediad i`r hosbis a`ch dychweliad adref yn ddiogel i chi ac i`r tîm. Byddwn yn darparu ar gyfer eich hoffter a diffyg hoffter o fwyd ac unrhyw ofynion fel diet arbennig oherwydd ymprydio, alergedd bwyd neu gyfyngiadau. Bydd cyfle gennych chi a`r teulu baratoi diodydd

Skanda Vale Hospice
Saron
Llandysul
SA44 5DY

neu byrbrydau ysgafn yn y gegin fechan os ydych yn medru gwneud hyn, ond hefyd, mae`r tîm ar gael i baratoi diodydd a byrbrydau ar unrhyw adeg yn ystod eich arhosiad.

Pan ydych yn dod i aros yn yr hosbis, bydd rhaid i chi ddod â phob offer a meddyginiaeth yr ydych yn eu defnyddio yn y cartref. Gallwch barhau i gymeryd eich meddyginiaeth wrth eich hunan neu ofyn i`r nyrsys ei wneud drostoch. Rhaid i`r holl feddyginiaeth fod yn y pecynnau gwreiddiol gyda`r labeli arnynt.

Yn ystod eich arhosiad, bydd eich ystafell chi yn lle i chi eich hun a gallwch aros ynddi neu ddim yn ôl eich dymuniad. Gallwch ddisgwyl bod pob aelod o`r tîm yn cnocio cyn dod i mewn i`ch ystafell. Gallwch fod gyda`ch teulu neu`ch ffrindiau yn eich ystafell eich hun neu unrhyw ystafell arall sydd ar gael o fewn adeilad a gerddi`r Hosbis.

Ein nod yw i ddarparu arhosiad yn yr hosbis sy`n diwallu eich anghenion unigryw a byddwn yn sicrhau bod unrhyw weithgareddau sy`n cael eu trefnu yn bethau rydych am ymuno ynddynt. Rydym yn gobeithio ein bod yn medru cynnig amser i chi orffwys ac i gael eich symbylu, amser i brofi hwyl a chyfeillgarwch sy`n caniatau i chi ddychwelyd adref wedi dadflino.

Mae croeso i`ch teulu ymweld â chi. Gall anifail anwes ymweld hefyd os ydynt yn ymddwyn yn dda, er rhaid cadw rheolaeth arnynt mewn mannau cyhoeddus. Efallai byddwch yn dymuno i aelod o`r teulu aros yn yr hosbis ar rai adegau. Gallant aros yn eich ystafell chi neu yn yr adeilad i`r teulu yn ôl eich dymuniad.

Cyfrinachedd

Caiff pob gwybodaeth amdanoch chi sydd yn cael ei gadw gan Hosbis Skanda Vale ei thrin yn hollol gyfrinachol, yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data. Dim ond y wybodaeth amdanoch chi sydd ei angen arnom er mwyn ein cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaeth byddwn yn gofyn amdano.

Mae rhannu gwybodaeth gyda phobl broffesiynol eraill yn hanfodol wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol i chi ac i'ch teulu. Byddwn yn gofyn i chi roi eich caniatâd i ni rannu gwybodaeth gyda'r holl bobl broffesiynol fydd yn gofalu amdanoch chi. Bydd hyn yn caniatáu i ni fynychu cyfarfodydd a derbyn llythyron clinigol fel bo angen.

Gallwch wrthod eich caniatâd neu gallwch newid eich meddwl os ydych eisoes wedi rhoi caniatâd, er gall hyn efallai effeithio ar y gofal sy`n cael ei gynnig i chi. Trafodwch eich pryderon ynghylch rhannu gwybodaeth gyda'r Nyrs Arweiniol.

Mynediad i gofnodion a gedwir gan Hosbis Skanda Vale

Fel gyda phob sefydliad gofal iechyd, mae hawl gennych chi i ddarllen unrhyw gofnodion sy'n cael eu cadw gennym ynglŷn â'ch gofal a'ch triniaeth. Os ydych chi am ddarllen eich nodiadau, mae angen gwneud cais ysgrifenedig i'r Nyrs Arweiniol.

Eich adborth

Mae eich barn ynghylch y gwasanaeth rydych wedi ei dderbyn, awyrgylch yr hosbis a syniadau ynghylch datblygu'r gwasanaeth yn bwysig i ni. Ein gobaith yw y byddwch yn teimlo'n rhydd i rannu'r syniadau hyn gyda ni mewn ffordd anffurfiol ar y pryd.

Skanda Vale Hospice
Saron
Llandysul
SA44 5DY

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gynnig adborth ffurfiol. Mae blwch awgrymiadau yn yr hosbis ar gyfer adborth; mae linc ar ein gwefan i wneud hyn hefyd neu e-bostiwch ni ar feedback@skandavale.org

Mae`ch adborth yn cael ei rhannu gyda`r tîm ar gyfer ein gwasanaeth gwella parhaus.

Sut i gwyno neu ganmol

Hoffwn eich annog i gynnig adborth ar ein gwasanaethau – yn gadarnhaol neu'n negyddol. Mae hyn yn ein galluogi i wella ac mae hefyd yn ein galluogi i adrodd yn ôl i'n Tîm ac adnabod unrhyw hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen.

Er mwyn anfon unrhyw adborth atom ni, yn canmol, yn codi pryderon neu i gwyno, defnyddiwch y ffurflen adborth sydd ar ein gwefan, neu anfonwch e-bost i feedback@skandavale.org neu defnyddiwch un o'r ffurflenni adborth sydd i'w gweld wrth dderbynfa'r hosbis ac yna ei roi yn y blwch awgrymiadau. Mae pob sylw yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol.

Cofiwch, ni fyddwch yn cael eich trin yn wahanol oherwydd i chi gwyno; rydym yn awyddus iawn i chi ddweud wrthym os nad ydym yn gwneud pethau'n iawn. Mae eich lles chi yn bwysig iawn i ni. Os yw'n well gennych, siaradwch gyda'r person sydd â chyfrifoldeb neu os yw'n well gennych chi ysgrifennu atom ni, yna cyfeiriwch eich pryderon at:

Rheolwr Cofrestredig
Hosbis Skanda Vale
Saron
Llandysul
Sir Gâr
SA44 5DY

Byddwn yn ymdrechu i ymateb i'ch adborth neu eich cwyn a`i ddatrys o fewn 30 diwrnod ond, mewn rhai achosion, gall hyn gymryd mwy o amser. Byddwn yn eich hysbysu bob cam o'r broses. Os nad ydych yn fodlon gyda'r canlyniad, gallwch apelio at Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Os ydych wedi mynd drwy'r broses cwyno fewnol ac yn teimlo nad yw eich cwyn wedi derbyn triniaeth gywir, gallwch ofyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwilio.

Gallwch gysylltu â`r Ombwdsmon drwy:

- ffonio: 0300 790 0203
- e-bostio: holwch@ombwdson.cymru
- y wefan: www.ombudsman-wales.org.uk
- Twitter: @OmbudsmanWales
- Ysgrifennu at: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

Arolygiaeth Iechyd Gofal Cymru

Skanda Vale Hospice
Saron
Llandysul
SA44 5DY

Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw bryderon am y gofal a`r driniaeth sy`n cael eu darparu yn Hosbis Skanda Vale gallwch gysylltu ag Arolygiaeth Iechyd Gofal Cymru. Er nad yw rôl statudol Arolygiaeth Iechyd Gofal Cymru yn cynnwys ymchwilio i bryderon neu gwynion unigol nag amgylchiadau penodol eich gofal a`ch triniaeth, byddant yn barod i glywed wrthoch pe bai gennych bryderon am wasanaethau gofal iechyd.

- Arlein: https://www.hiw.org.uk/provide-feedback-about-healthcare-service
- Ffôn: 0300 062 8163
- Ysgrifennu at: Arolygiaeth Iechyd Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhydycar, Merthyr Tydfil Cf48 1UZ
- E-bost: hiw@gov.wales

I gloi

Rydym yn gobeithio bod y wybodaeth a geir yma wedi bod yn ddefnyddiol i chi.Mae'r tîm yma i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych – dim ond i chi holi. Ein nod yw eich cynorthwyo i fyw gyda'ch cyflwr, i gynnig profiadau gwahanol i chi ac i sicrhau eich bod yn teimlo eich bod o werth, yn cael eich caru, ac yn rhan o'ch cymuned. Gadewch i ni wybod beth allwn ni ei wneud i gyflawni hyn i chi ac i'ch teulu.